Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

**Datganiad Cyflogaeth Foesegol 2019/20**

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) yn cael ei lletya gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (Felindre). O'r herwydd, mae'n rhwym i'r ymrwymiadau a nodir yn Natganiad Cyflogaeth Foesegol Felindre. At hynny, mae PCGC yr un mor ymroddedig i sicrhau bod gweithgarwch caffael a wneir ar ran GIG Cymru yn cael ei wneud mewn ffordd foesegol. Byddwn yn sicrhau bod gweithwyr o fewn y cadwyni cyflenwi y byddwn yn cyrchu ein nwyddau a'n gwasanaethau drwyddynt yn cael eu trin yn deg, yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

Yn benodol, byddwn yn sicrhau bod ein sefydliad ac unrhyw rannau o'n cadwyn gyflenwi yn cydymffurfio â phob elfen o'r Cod Ymarfer gan gynnwys:

- Caethwasiaeth fodern a cham-drin hawliau dynol;
- Cosbrestru;
- Hunangyflogaeth ffug;
- Defnydd annheg o gynlluniau ymbarél a hunangyflogaeth ffug; a
- Thalu'r cyflog byw.

Hyd yma, mae Gwasanaethau Caffael PCGC wedi:

- Darparu hyfforddiant i'r rhai sy'n ymwneud â phrynu / caffael am gaethwasiaeth fodern ac arferion cyflogaeth moesegol, drwy amrywiol gyfryngau hyfforddi;
- Datblygu cwestiynau safonol sy'n sicrhau bod arferion cyflogaeth moesegol yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses gaffael;
- Dod yn un o lofnodwyr y gofrestr Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi (TISC), ac wedi cyhoeddi Datganiad Cyflogaeth Foesegol PCGC; a
- Gofyn i'n cyflenwyr ymaelodi â chofrestr Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi, a chyhoeddi eu polisïau a'u datganiadau cyflogaeth foesegol eu hunain.

Bydd Gwasanaethau Caffael PCGC yn:

- Ymgorffori'r Cod Ymarfer yn ein gweithdrefnau gweithredu safonol, gan gynnwys telerau ac amodau contract;
- Sicrhau bod y Cod Ymarfer yn rhan annatod o'n polisi Caffael Cynaliadwy ehangach;
- Ymgysylltu'n briodol â'n cyflenwyr yn rheolaidd, i sicrhau nad yw'r ffordd yr ydym yn gweithio yn cyfrannu at ddefnyddio arferion cyflogaeth anghyfreithlon neu anfoesegol o fewn y gadwyn gyflenwi;
- Disgwyl i'n cyflenwyr ymrwymo i God Ymarfer Llywodraeth Cymru, er mwyn helpu i sicrhau bod arferion cyflogaeth moesegol yn cael eu cynnal drwy gydol eu cadwyni cyflenwi, fel amod cyflenwi i GIG Cymru; ac
- Asesu ein gwariant i nodi meysydd risg uchel, a pharhau i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau caethwasiaeth fodern, cam-drin hawl~~iau~~ dynol ac ymarfer cyflogaeth anfoesegol.

Llofnod:

**Mr Gareth Hardacre, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol**
**Hyrwyddwr Gwrth-Gaethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol PCGC**